# RHAN 5  CODAU A PHROTOCOLAU

## RHAN 5.2 Côd Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion o ran Materion Cynllunio

### CYFLWYNIAD

1.1 Bwriad y Cod Ymarfer hwn yw tywys y gweithdrefnau y mae Cynghorwyr ('Aelodau') a swyddogion y Cyngor yn eu defnyddio i ddelio â materion cynllunio ac i bennu safonau o gywirdeb ac ymddygiad y gall trigolion Sir Gaerfyrddin eu disgwyl ganddynt.

1.2 Gan fod Cynllunio yn effeithio ar fywydau a buddiannau preifat pobl, gall fod yn fater dadleuol iawn. Mae'n bwysig, felly, bod pobl Sir Gaerfyrddin yn deall y system ac yn hyderus ynghylch ei huniondeb a'i thryloywder, a bod yr Aelodau a'r swyddogion sy'n ymwneud â'r broses 'gynllunio', yn osgoi ymddygiad amhriodol neu hyd yn oed amheuon eu bod wedi ymddwyn yn briodol. Cymeradwyir y dull hwn gan y Pwyllgor Safonau Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan), Swyddfa Archwilio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

1.3 Rhaid i aelodau ddilyn y *Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin* (y mae Rhan 3 ohono yn cwmpasu materion megis datgan buddiannau, rhoddion a lletygarwch) a'r *Protocol ar gyfer yr Aelodau, Cysylltiadau Swyddogion*. Wrth ddelio â materion cynllunio rhaid iddynt weithredu hefyd yn unol â'r Côd Ymarfer hwn ar gyfer Cynllunio.

1.4 Gall torri'r côd hwn, er na fydd fel arfer yn torri'r gyfraith droseddol, gael effaith niweidiol ar safle'r Cyngor ac enw da'r aelod unigol. Gallai arwain at benderfyniad yn bod yn destun adolygiad barnwrol neu at gwyn ynghylch camweinyddu, neu gyflwyno honiad ynghylch torri'r Côd Ymddygiad i Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

1.5 Os bydd gan Aelodau neu swyddogion amheuon ynghylch cymhwyso'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin’ neu'r Côd Ymddygiad hwn ar gyfer Cynllunio, dylent geisio cyngor gan Swyddog Monitro'r Cyngor.

### 2. ROLAU CYFFREDINOL, CYFRIFOLDEBAU AC YMDDYGIAD

2.1 Mae gan aelodau a swyddogion rolau gwahanol, ond cydweddus, yn y broses gynllunio. Mae gan aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio rolau gwahanol i eiddo Cynghorwyr eraill.

2.2 Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio sy'n penderfynu ar y ceisiadau cynllunio mwyaf arwyddocaol a dadleuol a dderbynnir gan y Cyngor. Wrth wneud hynny mae'r Aelodau hyn yn cyflawni swyddogaeth led-farnwrol, ac mae gofyn eu bod yn ystyried yr holl gynigion cynllunio yn erbyn budd ehangach y cyhoedd. Yn sgil natur led-farnwrol rôl y Pwyllgor Cynllunio a'r gofyniad yn Rhan 13 o'r Côd Ymarfer hwn, dylai'r Aelodau hynny ddilyn hyfforddiant cyn ymgymryd â'u rôl fel Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio. Dirprwyir ceisiadau eraill at Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio i benderfynu arnynt, fel y disgrifir ym Mharagraph 2.10.

## Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio

2.3 Rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio:

- Ymarfer cyfrifoldeb personol wrth benderfynu a ydynt am ddatgan unrhyw fudd personol a rhagfarnol (fel y diffinnir yn Rhan 3 o'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin) mewn unrhyw gais cynllunio sydd gerbron y Pwyllgor Cynllunio i'w benderfynu, ac ystyried tynnu'n ôl o'u hymwneud â'r penderfyniad. Os bydd gan Aelod fuddiant personol a buddiant rhagfarnol o dan y côd yng nghyswllt cais cynllunio penodol, bydd yr Aelod hwnnw fel arfer yn dal i allu mynychu'r pwyllgor cynllunio ynghylch y cais dan sylw, ond er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yng nghyswllt y cais hwnnw yn unig. Wedyn rhaid i Aelod adael y cyfarfod nes bod y Pwyllgor wedi penderfynu ar y cais. Yn dilyn y penderfyniad hwnnw, caniateir i'r Aelod gymryd rhan yn yr eitemau sy'n weddill ar yr agenda. Os bydd amheuaeth, dylai'r Aelodau ymgynghori a cheisio arweiniad gan y Swyddog Monitro.
- Gweithredu'n deg ac yn agored, gan osgoi unrhyw weithredoedd a allai greu argraff o duedd, osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol ag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartïon eraill â diddordeb.
- Ymdrin â phob cais cynllunio/mater â meddwl agored, gan osgoi syniadau a luniwyd ymlaen llaw.
- Peidio â threfnu cefnogaeth na gwrthwynebiad i gais cynllunio os nad ydynt am effeithio ar eu gallu i bleidleisio yn y Pwyllgor Cynllunio.
- Pwyso a mesur yn ofalus yr holl faterion cynllunio perthnasol cyn dod i benderfyniad.
- Gwneud penderfyniadau ar sail cynllunio er budd y cyhoedd yn unig, heb ffafrio, nac ymddangos fel petaent yn ffafrio, unrhyw berson, cwmni, grwp nac ardal, (ar er bod cyfrifoldeb arbennig ar Aelodau'r Pwyllgor i'w hetholwyr yn y Rhanbarth Etholiadol, gan gynnwys y rhai na fuont yn pleidleisio drostynt, mae eu dyletswydd Cynllunio i'r gymuned gyfan).
- Peidio â phenderfynu sut i bleidleisio ar geisiadau ar sail 'chwip' wleidyddol, ond ar sail rhinweddau cynllunio pob achos yn unig, (gallai gwneud penderfyniad cynllunio yn destun disgyblaeth y 'chwip' wleidyddol fod yn achos o gamweinyddu ac arwain at ymyrraeth gan yr Ombwdsmon).
- Rhoi rhesymau/cyfiawnhad dros eu penderfyniadau a'u dyfarniadau.
- Rhoi sylw i unrhyw gyngor perthnasol gan Swyddog Monitro'r Cyngor a'r Prif Swyddog Cyfreithiol neu eu cynrychiolwyr.

### Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio sydd hefyd yn aelodau o Gymunedau Tref / Cymuned

2.4 Mae bod yn Aelod o Gyngor Tref/Cymuned yn rhoi cyfle i wrando ar farn leol ac nid yw ynddo'i hun yn achosi gwrthdaro buddiant i Aelod o Bwyllgor Cynllunio cyhyd â'i fod ef/bod hi yn cadw meddwl agored nes bod yr holl dystiolaeth a dadleuon wedi cael eu cyflwyno yn y Pwyllgor Cynllunio.

2.5 Yn gyfreithiol, caiff Aelod siarad a phleidleisio pan fydd cais cynllunio yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Cyngor Tref/Cymuned. O dan yr amgylchiadau hyn mae angen i Aelod egluro yn y cyfarfod o'r Cyngor Tref/Cymuned y byddai ef/hi yn ystyried y mater o'r newydd yn y Pwyllgor Cynllunio, gan roi sylw i'r holl wybodaeth berthnasol. Wedyn, pan gaiff y mater ei ystyried gan y Cyngor Sir, dylai Aelod egluro nad yw wedi ei r(h)wymo gan farn y Cyngor Tref/Cymuned. Nid yw hyn yn berthnasol pan ddaw'r cais o'r Cyngor Tref/Cymuned ei hun. O dan yr amgylchiadau hynny, dylai'r Aelod ymgynghori â'r Swyddog Monitro i gael cyngor pellach.

### Aelodau o'r Cyngor nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio

2.6 Mae Aelodau nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio yn cynrychioli eu Ward Etholiadol a'r Cygnor Sir yn gyfan. Cânt fynychu'r Pwyllgor Cynllunio a siarad ar unrhyw fater cynllunio sy'n codi yn eu ward etholiadol (yn amodol ar ddatgan budd), ond ni chânt bleidleisio. Nid yw Aelodau o'r fath yn gweithredu yn y rôl led-farnwrol a gyflawnir gan Aelodau'r Pwyllgor, ond rhaid iddynt wneud y canlynol: -

- Gweithredu'n deg ac yn agored:
- Osgoi unrhyw weithredoedd a fyddai'n creu argraff o dueddiad neu ddylanwad gormodol.
- Osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol ag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartïon eraill â buddiant.

2.7 Yr Aelodau: mai: Cefnogaeth ar gyfer: a) – Barn. o drwy: Y Pwyllgor Cynllunio (neu drwy: Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio Pwerau dirprwyedig).

2.8 Swyddogaeth y swyddogion yw cefnogi a hwyluso'r Cynghorwyr wrth eu gwaith a rhoi penderfyniadau cyfreithlon ar waith.

### Ceisiadau a ddirprwyir i Bennaeth Lle a Chynaliadwyaeth ar gyfer penderfyniad

Mae gan Bennaeth Lle a Chynaliadwyaeth bwerau dirprwyedig i ddelio gyda phenderfynu ar swyddogaethau a gweithdrefnau (ac eraill cysylltiedig â chynllunio) sy'n gysylltiedig â Chynllunio Gwlad a Thref fel y'u cynhwysir yn y Deddfau canlynol (fel y'u newidiwyd lle bo'n briodol), a chan gynnwys yr holl ddeddfwriaeth sy'n israddol iddynt:-

• Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
• Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
• Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990
• Deddf Cynllunio a Iawndal 2004
• Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
• * Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
• Deddf Dyfed 1987

Yr eithriadau fel a ganlyn:-

• Ceisiadau lle mae'r Aelod Lleol yn cyflwyno cais i Bennaeth Lle a Chynaliadwyaeth er mwyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio, gan wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod i dderbyn yr ymgynghoriad ac amlinellu'r rhesymau cynllunio perthnasol;

• Ceisiadau a gyflwynir gan Gynghorwyr sy'n gwasanaethu neu eu teulu agos neu weithwyr y Gwasanaeth Rheoli Datblygu neu eu teuluoedd agos;

• Ceisiadau a gyflwynir gan, neu ar ran, y Cyngor neu sy'n ymwneud â thir ym mherchnogaeth y Cyngor a lle bo gan y Cyngor fuddiant ariannol sylweddol mewn cais o'r fath.

• Mân geisiadau lle ceir tri llythyr o wrthwynebiad i'r cynnig gan wahanol aelwydydd neu busnesau, neu deisebau o dri llofnod wrth gwahanol aelwydydd neu busnesau neu fwy, ac ystyrir bod sail y gwrthwynebiadau yn rhesymau cynllunio perthnasol i'r cynnig ac argymhelliad y swyddog yw cymeradwyo'r cais, ac eithrio:-

- lle'r oedd mater(ion) perthnasol wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor yn ystod y cam amlinellol ac nad oedd newidiadau yn yr amgylchiadau perthnasol rhwng y cais amlinellol a'r cais manwl (materion a gadwyd yn ôl);
- lle'r oedd mater(ion) perthnasol wedi ei drafod gan y Pwyllgor yn ystod y cam cais cynllunio gwreiddiol ac nad oedd newidiadau yn yr amgylchiadau perthnasol rhwng y cais gwreiddiol ac Adran 73 (tynnu nol/amrywio);
- lle'r oedd gwrthwynebiadau parhaus yn dod i law ynghylch datblygiad oedd ar waith a gawsai ei ystyried eisoes gan y Pwyllgor Cynllunio ac nad oedd yn codi unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol newydd.

- Ceisiadau mawr lle ceir saith llythyr o wrthwynebiad i'r cynnig gan wahanol aelwydydd neu fusnesau, neu ddeisebau o saith llofnod o wahanol aelwydydd neu fusnesau neu fwy, ac y bernir bod y sail ar gyfer y gwrthwynebiad yn ystyriaethau cynllunio perthnasol i'r cynnig, ac argymhelliad y swyddog yw cymeradwyo'r cais, ac eithrio
    - lle'r oedd mater(ion) perthnasol wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor yn ystod y cam amlinellol ac nad oedd newidiadau yn yr amgylchiadau perthnasol rhwng y cais amlinellol a'r cais manwl (materion a gadwyd yn ôl);
    - lle’r oedd mater(ion) perthnasol wedi ei drafod gan y Pwyllgor yn ystod y cam cais cynllunio gwreiddiol ac nad oedd newidiadau yn yr amgylchiadau perthnasol rhwng y cais gwreiddiol ac Adran 73 (tynnu nol/amrywio);
    - lle'r oedd gwrthwynebiadau parhaus yn dod i law ynghylch datblygiad oedd ar waith a gawsai ei ystyried eisoes gan y Pwyllgor Cynllunio ac nad oedd yn codi unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol newydd;
    - ceisiadau lle mae’r Pennaeth Lle a Chynaliadwyaeth o’r farn y dylai’r Pwyllgor Cynllunio ymdrin â nhw.

Nid yw’r eithriadau a restrir uchod yn berthnasol i’r ceisiadau a/neu gydsyniadau canlynol:-

Hysbysiadau Ymlaen Llaw
Ceisiadau sy'n ymwneud â Gorchymyn Datblygu Lleol
Diwygiadau Ansylweddol
Cyflawni Amodau
Addasu / Cyflawni Rhwymedigaethau Cynllunio
Caniatâd Hysbysebu
Caniatâd Adeilad Rhestredig
Caniatâd Ardal Gadwraeth
Hysbysiadau Gwaredu Perthi
Gwaith Coed mewn Ardal Gadwraeth
Gwaith Gorchmynion Diogelu Coed
CLEUD (Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad sy'n Bodoli)
CLOPUD (Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig)
Tystysgrifau Datblygiad Arall Priodol
Hysbysiadau Llinellau Uwchben

Bydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael gwybod am yr holl eithriadau cyn belled â'u bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r cynllun dirprwyo.

At ddibenion y protocol hwn, “Datblygiadau mawr” yw'r rhai a ddiffiniwyd yn erthygl 2(1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygu)(Cymru) 2012, sef:-

(a) datblygu mwynau

(b) datblygu gwastraff

(c) 10 neu fwy o breswylfeydd, neu mae'r safle dan sylw yn 0.5 hectar neu'n fwy

(d) adeilad sydd â 1000 metr sgwâr neu fwy o arwynebedd llawr

(e) datblygiad ar dir 1 hectar neu fwy

Mae "Mân ddatblygiadau" at ddibenion y protocol hwn i gael eu diffinio fel eu bod yn cwmpasu pob datblygiad arall.

## 2.10 Dyletswyddau Swyddogion

Wrth ystyried ceisiadau a chynghori Aelodau a'r cyhoedd ynghylch polisi cynllunio, penderfynu ar geisiadau cynllunio, gorfodi a materion cynllunio eraill, rhaid i swyddogion: -

- Weithredu'n deg ac yn agored
- Osgoi unrhyw weithredoedd a fyddai'n creu argraff o duedd.
- Osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol ag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartïon eraill â buddiant.
- Ymdrin â phob cais cynllunio/mater â meddwl agored, gan osgoi rhagdybiaethau.
- Pwyso a mesur yr holl faterion cynllunio perthnasol yn ofalus.
- Gwneud penderfyniadau ar sail cynllunio yn unig, gan roi sylw i'r cynllun datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill.
- Rhoi cyngor cynllunio proffesiynol, gwrthrychol a chyson.
- Darparu dadansoddiad cynhwysfawr a chywir o'r materion cynllunio.
- Rhoi argymhelliad clir.
- Cyflawni penderfyniadau'r Pwyllgor.

Swyddogion Cyfreithiol y Cyngor sy'n cynghori Aelodau ar faterion cyfreithiol a gweithdrefnol. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt: -

- Weithredu'n deg ac yn agored
- Osgoi unrhyw weithredoedd a fyddai'n creu argraff o duedd,
- Osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol ag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartïon eraill â buddiant,
- Rhoi cyngor cynllunio proffesiynol, gwrthrychol a chyson,
- Cyflawni penderfyniadau'r Pwyllgor i'r graddau y maent yn ymwneud â chwblhau unrhyw gytundeb cyfreithiol, neu gychwyn/amddiffyn achosion ac ati.

## 3. TREFNIADAU PROSESU GWEINYDDOL

### Hysbysu ynghylch cais cynllunio
### Dogfennaeth y cais
### Cyfarfodydd ag ymgeiswyr a gwrthwynebwyr
### Y broses o benderfynu

3.1 Bydd pob Aelod o'r Cyngor yn cael gwybod am yr holl geisiadau cynllunio ac eraill cysylltiedig a gyflwynwyd trwy'r "Rhestr Wythnosol o Geisiadau Cynllunio" a roddwyd ar y wefan, oni bai bod yr aelod wedi gofyn am gael ei hysbysu'n uniongyrchol drwy e-bost a/neu'r post.

3.2 Rhaid i'r rhestr a'r hysbysiad wythnosol ynghylch ceisiadau nodi'r swyddog achos priodol a all roi gwybod a yw'r cais i gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio neu gan swyddogion fel rhan o'r cynllun dirprwyo

3.3 Bydd Aelodau Lleol ond yn cael copi o gais cynllunio neu gais cysylltiedig neu ddogfennau sy'n ymwneud â'r cyfryw geisiadau os ydynt yn gwneud cais penodol am hynny. Ni fydd Aelodau Lleol yn cael eu hysbysu ynghylch cyflwyno cynlluniau a newidiwyd yng nghyswllt cais yn eu rhanbarth etholiadol oni bai eu bod yn gwneud cais am hynny.

3.4 Ni fydd Aelodau Lleol yn cael eu hysbysu gan yr Adran Gynllunio, na'u gwahodd i unrhyw gyfarfodydd ag ymgeiswyr neu wrthwynebwyr ynghylch unrhyw gais yn eu rhanbarth etholiadol, er y gall yr ymgeisydd/y gwrthwynebydd eu gwahodd. Os bydd Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio yn mynychu unrhyw gyfarfodydd o'r fath, dylent fod yn ymwybodol o'r angen am osgoi unrhyw arwyddion o benderfynu ymlaen llaw.

3.5 Bydd Aelodau Lleol yn cael eu hysbysu am gyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir ynghylch unrhyw gais sy'n ymwneud â thir neu eiddo yn eu rhanbarth etholiadol, os yw'r rheiny'n cael eu trefnu gan y Cyngor neu bod yr Adran Gynllunio yn ymwneud â hwy.

3.6 Os bydd Aelod am i gais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio, dylai wneud cais ysgrifenedig at Bennaeth Cynllunio o fewn 21 diwrnod i gyflwyno'r hysbysiad. Dylai'r cais nodi'r rhesymau pam mae penderfyniad gan y Pwyllgor Cynllunio yn angenrheidiol.

3.7 Rhaid i Aelodau sicrhau nad ydynt yn gweithredu mewn unrhyw ffordd lle gellid ystyried eu bod yn rhoi pwysau ar swyddogion i wneud argymhellion neu benderfyniadau penodol nac i newid argymhellion neu benderfyniadau ynghylch unrhyw gais.

## 4. TRAFODAETHAU CYN CYFLWYNO / PENDERFYNU AR GAIS AC YNGHYLCH GORFODAETH

4.1 Anogir Awdurdodau Cynllunio Lleol i gynnal trafodaethau a chyd-drafod, er mwyn cyflawni gwelliannau a all olygu bod cais yn dderbyniol neu ddatrys problemau eraill, ac felly o bosibl gyflymu'r broses.

4.2 Bydd trafodaethau o'r fath fel arfer yn digwydd ar lefel y swyddogion, a rhaid i'r Aelodau, lle bynnag y bo modd, gyfeirio ceisiadau am gyngor o'r fath at y swyddogion. Os bydd Aelodau yn dod yn rhan o drafodaethau o'r fath, dylent egluro mai barn bersonol dros dro sydd ganddynt, ac efallai y byddant am gadw cofnod o'r drafodaeth.

4.3 Rhaid i bob swyddog sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau o'r fath:

- Nodi'r broses o wneud penderfyniad sy'n berthnasol i'r cais/mater a drafodir
- Egluro na ellir mynegi ond barn bersonol, dros dro na fydd yn rhwymo'r Cyngor i ddod i benderfyniad penodol wrth benderfynu ar gais.
- Mynegi barn yng nghyd-destun y cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.
- Bod yn gyson wrth ddehongli polisïau cynllunio a chanllawiau'r Llywodraeth.
- Cynghori ymgeiswyr a chymdogion/gwrthwynebwyr ynghylch materion gweithdrefnol.

4.4 O bryd i'w gilydd bydd pobl leol neu Gynghorau Tref/Cymuned neu'r ymgeisydd neu ei asiantau yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus i drafod cais cyfredol, a gallant wahodd yr ymgeiswyr, yr Aelodau a'r swyddogion i fod yn bresennol. O ystyried yr angen am osgoi penderfynu ymlaen llaw, rhaid i Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a swyddogion sy'n mynychu cyfarfodydd o'r fath eu defnyddio er mwyn canfod ffeithiau yn unig; ni chânt fynegi barn o blaid nac yn erbyn y cynnig a rhaid iddynt weithredu fel arall yn unol â Pharagraffau 2.2. i 2.6 a 4.2.

## 5. LOBIO AELODAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

5.1 Lobïo yw'r broses lle gall ymgeiswyr; asiantau, cymdogion, rhai nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor a phartïon eraill sydd â buddiant, geisio darbwyllo Cynghorwyr ar y Pwyllgor Cynllunio i ddod i benderfyniad penodol. Mae'n gyfreithlon iddynt fynd at Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, a gall trafodaethau o'r fath helpu'r Aelodau i ddeall y materion dan sylw a'r pryderon. Fel y nodwyd yn “Nhrydydd Adroddiad Pwyllgor Nolan", mae'n hanfodol, os yw'r system Gynllunio i weithredu'n briodol, bod pryderon lleol yn cael eu lleisio'n ddigonol.

5.2 Wrth ymateb i ddulliau fel hyn, ni ddylai Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio fynegi barn gyhoeddus y gellid cymryd ei bod yn dangos eu bod wedi penderfynu cyn clywed yr holl dystiolaeth a dadleuon, a gyflwynir yn y Pwyllgor Cynllunio. Dylent egluro eu safbwynt o ran cywirdeb os byddant yn mynegi barn ar gynnig cyn iddo gael ei ystyried yn y Pwyllgor. Dylent;

- Egluro'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno sylwadau.
- Nodi y gwneir penderfyniad dim ond ar ôl i'r holl ystyriaeth cynllunio perthnasol dderbyn sylw.
- Egluro'r mathau o faterion cynllunio y gall y Cyngor eu hystyried.
- rhoi gwybod i'r swyddogion am faterion a godwyd neu
- Gyfeirio'r cyhoedd at y Swyddogion fel bod modd ystyried eu barn.

5.3 Er nad yw'n anghyfreithlon i Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio gefnogi canlyniad penodol yn gyhoeddus, na mynegi barn ar gais cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, gallai hynny greu canfyddiad bod yr Aelod eisoes wedi dod i farn ynghylch sut byddai yn bwrw ei b/phleidlais, cyn darllen yr adroddiad llawn terfynol i'r Pwyllgor Cynllunio, a chlywed y dadleuon, a gallai arwain at honiadau bod yr Aelod wedi penderfynu ar y cais ymlaen llaw. Gallai hynny danseilio uniondeb y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Cynllunio, ac wedyn gellid herio'r penderfyniad mewn apêl, yn y llysoedd neu trwy honiad o gamweinyddu a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon.

5.4 Dylai Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, felly, roi ystyriaeth ofalus i unrhyw arwydd ganddynt eu bod wedi penderfynu ar gais cynllunio ymlaen llaw cyn ystyried yr adroddiad llawn a'r dadleuon yn y Pwyllgor Cynllunio, ac os ydynt wedi gwneud hynny, ni ddylent fod yn rhan o'r broses o benderfynu ar y cais hwnnw gan y Pwyllgor Cynllunio. Dylai'r Aelodau geisio cyngor Swyddog Monitro'r Cyngor mewn achosion o'r fath.

## 6. CEISIADAU CYNLLUNIO A GYFLWYNWYD GAN YR AELODAU, CYNGHORAU TREF / CYMUNED A SWYDDOGION

6.1 Rhaid i Geisiadau Cynllunio a gyflwynwyd gan, neu ar ran Aelodau neu swyddogion a gyflogir gan Wasanaeth Rheoli Datblygu'r Cyngor, neu gan, neu ar ran priod, partner, rhiant, plentyn neu frawd neu chwaer Aelod neu

swyddog o'r Cyngor, lle bo hynny'n hysbys, gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio, ac nid o dan bwerau dirprwyedig gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio. Bydd hyn hefyd yn berthnasol lle bo'r Aelod yn gweithredu fel asiant ar gyfer rhywun arall.

6.2 Rhaid i'r Aelod(au) yr effeithir arnynt ddatgan bodolaeth a natur y buddiant/berthynas a pheidio ag ymwneud â'r penderfyniad.

6.3 Ni chaiff y swyddog yr effeithir arno/arni fod yn rhan o brosesu'r cais, nac unrhyw argymhelliad a wneir i Bennaeth Cynllunio o dan y cynllun dirprwyo nac i'r Pwyllgor Cynllunio.

6.4 Pan fydd Cyngor Cymuned neu Gyngor Tref yn cyflwyno cais cynllunio, dylai'r Aelodau o'r Cyngor Sir sydd hefyd yn aelodau o'r Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Tref hwnnw ddatgelu eu buddiant a gadael y cyfarfod. Fodd bynnag, gellir caniatáu iddynt fynychu'r cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau ac ateb cwestiynau ynghylch y cais dan sylw, cyhyd â bod aelodau o'r cyhoedd yn cael gwneud sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater. Wedyn rhaid i'r Aelod adael y cyfarfod nes bod y cais wedi cael ei benderfynu gan y Pwyllgor, a phryd hynny gall yr Aelod ddychwelyd i'r cyfarfod i gymryd rhan yng ngweddill yr eitemau ar yr agenda.

## 7. CEISIADAU CYNLLUNIO A GYFLWYNIR GAN Y CYNGOR

7.1 Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn trin ceisiadau ar gyfer ei ddatblygiadau ei hun (neu ddatblygiad sy'n cynnwys y Cyngor a rhywun arall) mewn modd tebyg i bob cais arall, ac y gwelir bod hynny'n digwydd.

7.2 Bydd pob cynnig o'r fath yn dilyn yr un prosesau gweinyddol, gan gynnwys ymgynghori, â cheisiadau preifat. Yn yr un modd bydd y penderfyniadau yn rhoi sylw i bolisi cynllunio ac unrhyw ystyriaethau cynllunio eraill perthnasol.

7.3 Er mwyn sicrhau dull tryloyw ac agored o ddelio â cheisiadau o'r fath, ni fydd ceisiadau'r Cyngor (ac eithrio cyflawni amodau) sy'n ymwneud â thir sydd ym mherchnogaeth y Cyngor a lle bo gan y Cyngor fuddiant ariannol sylweddol yn derbyn sylw o dan bwerau dirprwyedig, ond yn hytrach bydd y Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu arnynt.

## 8. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

8.1 Bydd pob mater Cynllunio sy'n derbyn sylw gan y Pwyllgor Cynllunio yn destun adroddiadau ysgrifenedig priodol gan Bennaeth Cynllunio (neu, yn achos materion cyfreithiol, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol) yn ymgorffori ei (h)argymhellion.  Rhaid i adroddiadau o'r fath fod yn gynhwysfawr ond yn gryno wrth gyflwyno'r prif faterion cynllunio (neu gyfreithiol) i'w hystyried (o ran darpariaethau'r cynllun datblygu ac

ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill), sylwedd unrhyw sylwadau a dderbyniwyd, ac unrhyw hanes cynllunio perthnasol.

8.2 Ni chaiff aelodau a swyddogion roi pwysau ar swyddogion cynllunio i wneud argymhellion na phenderfyniadau penodol nac i newid argymhellion neu benderfyniadau ynghylch unrhyw gais

## 9. YMDDYGIAD A GWEITHDREFNAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO CYFARFODYDD
### Gweithdrefn Ymddwyn

9.1 Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio sy'n gyfrifol am ymddygiad y cyfarfod, yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor a'r protocol (Atodiad 1 a pharagraff 9.3 isod) ac am gyflawni trafodion yn effeithiol mewn modd proffesiynol, cwrtais a thryloyw. Rhaid i Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion barchu'r rôl honno ac ymddwyn mewn modd sy'n gymesur â'r safonau uchel o ymddygiad a phriodoldeb a ddisgwylir mewn swydd gyhoeddus. Ar gychwyn y cyfarfod bydd y Cadeirydd, ar y cyd â swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd, yn sicrhau bod holl Aelodau'r Pwyllgor yn eistedd mewn rhan benodol o'r Siambr, er mwyn sicrhau eu bod yn eistedd ar wahân i'r cyhoedd ac unrhyw wahoddedigion eraill sy'n bresennol.

9.2 Bydd y Cadeirydd yn ceisio sicrhau bod Aelodau a swyddogion yn cael eu trin yn unol â Phrotocol cytunedig y Cyngor ar gyfer Cysylltiadau ag Aelodau/â Swyddogion, o ran:

- natur wleidyddol ddiduedd swyddogion.
- Annibyniaeth swyddogion.
- Parch, cwrteisi, gwarineb a phroffesiynoldeb o'r ddeutu yng nghyswllt gwahaniaeth barn.

9.3 Caniateir i aelodau o'r cyhoedd annerch y cyfarfod yn amodol ar y weithdrefn yn y protocol “Sylwadau i'r Cyngor Sir ar Geisiadau Cynllunio” Gweler Atodiad 1. Lle bydd aflonyddwch gan y cyhoedd yn amharu ar y cyfarfod, gall y cadeirydd ohirio'r trafodion nes bod y sefyllfa wedi ei datrys.

9.4 Cyfyngir ystyriaethau'r Pwyllgor i'r agenda a gyhoeddwyd, plws unrhyw eitemau brys a dderbyniwyd gan y Cadeirydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd trefn y trafodion fel arfer yn dilyn yr agenda, ond bydd y Cadeirydd yn ceisio trafod yn gynharach eitemau y mae'r cyhoedd neu'r ymgeiswyr sy'n bresennol wedi dod i'w clywed.

9.5 Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefn Pwyllgorau'r Cyngor, ac yn sicrhau bod modd cynnal dadleuon priodol mewn modd strwythuredig a phroffesiynol, gydag Aelodau'n cael cyfle i godi materion cynllunio perthnasol (fel arfer mewn un cyflwyniad). Bydd y Cadeirydd yn ceisio osgoi ailadrodd a dadleuon amherthnasol.

9.6 Rhaid i'r Aelodau ymdrechu i roi o leiaf 24 awr o rybudd (yn ysgrifenedig os oes modd) i Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio ynghylch cwestiynau y mae angen ymateb technegol neu fanwl iddynt, fel bod modd paratoi ymateb priodol ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio.

9.7 Ni ddylai Cynghorwyr gymryd rhan mewn trafodaethau ar gynnig yn ystod y cyfarfod oni bai eu bod wedi bod yn bresennol i glywed y ddadl gyfan, gan gynnwys cyflwyniad y swyddogion ar y mater ac unrhyw ymweliad safle. Os yw cais wedi'i ohirio o'r blaen, yna gofynnir i'r un Cynghorwyr ailystyried y cais pan fydd yn dychwelyd i'r Pwyllgor.

9.8 Rhaid gwneud pob penderfyniad cynllunio trwy bleidlais y mwyafrif, a gyflawnir yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor a'r Côd Ymarfer hwn.

9.9 Bydd y swyddog(ion) Cynllunio yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Cynllunio ar bob cais o ran y cyflwyniadau a materion perthnasol eraill na roddwyd sylw iddynt yn y prif adroddiad, a thrwy'r Cadeirydd, byddant yn gyfrifol am ymateb yn broffesiynol i gwestiynau'r Aelodau.

9.10 Bydd swyddogion cyfreithiol neu weinyddol priodol yn gyfrifol am roi cyngor i'r Cadeirydd ac i'r Pwyllgor ar faterion yn ymwneud â gweithdrefn a phrotocol.

9.11 Lle bo swyddogion yn hysbysu'r Cadeirydd ynghylch pryderon proffesiynol perthnasol neu ganlyniadau posibl camau gweithredu penodol (neu unrhyw atebolrwydd a allai godi neu wallau ffeithiol) rhaid rhoi cyfle rhesymol i swyddogion esbonio'r materion hynny'n gryno i'r Pwyllgor Cynllunio cyn iddo ddod i benderfyniad. Yn yr un modd, rhaid caniatáu i'r swyddog cyfreithiol sy'n bresennol yn y cyfarfod ymyrryd er mwyn rhoi cyngor cyfreithiol ynghylch materion gweithdrefnol a chyfraith gynllunio ar unrhyw adeg cyn i'r Pwyllgor ddod i benderfyniad.

## 10. YMWELIADAU SAFLE'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

**Pwrpas ymweliadau safle'r Pwyllgor**
**Ceisiadau am ymweliadau safle gan y Pwyllgor**
**Meini prawf ar gyfer cytuno i gynnal ymweliadau safle**
**Hysbysu ynghylch ymweliadau safle**
**Presenoldeb ar ymweliadau safle**
**Ymddygiad yn ystod ymweliadau safle**

10.1 Ymarferion canfod ffeithiau yw ymweliadau safle gan y Pwyllgor, er mwyn galluogi'r Aelodau i wneud penderfyniad mwy gwybodus nag a fyddai'n bosibl wedi darllen adroddiad y swyddog ac ystyried unrhyw farn a fynegwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio.

10.2 Unig bwrpas ymweliadau safle yw caniatáu i Aelodau edrych ar y safle a'r ardal o amgylch. Wrth gynnal yr ymweliad safle, ni fydd yr Aelodau yn dadlau'n ffurfiol ynghylch y cais, yn mynegi barn flaenorol, yn lobïo o blaid unrhyw benderfyniad nac yn dod i unrhyw benderfyniad.

10.3 Lle bynnag y bo modd, dylai ceisiadau Aelodau am ymweliadau safle yng nghyswllt achosion Pwyllgor ddod i law Pennaeth Cynllunio 21 diwrnod cyn y Pwyllgor, a hynny'n ysgrifenedig. Dylai cais o'r fath nodi, trwy gyfeirio at amodau cynllunio perthnasol, pam mae ymweliad safle yn angenrheidiol, a dylai nodi'r nodweddion y dylai Aelodau edrych arnynt yn ystod eu cyfnod ar y safle. Gall Pennaeth Cynllunio gyflwyno'r cais i'r Pwyllgor, a fydd wedyn yn gorfod penderfynu a ydynt yn cytuno â chais yr Aelod.

10.4 Gellir trefnu ymweliadau safle hefyd, ar sail cyngor Pennaeth Cynllunio, lle bo materion safle penodol y dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol ohonynt cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio.

10.5 Ni chaiff yr Aelodau wneud ymweliadau o'r fath ond lle na all y Pwyllgor Cynllunio wneud penderfyniad digon gwybodus fel arall, a lle byddai budd sylweddol i'r ymweliad. Bydd Pennaeth Cynllunio yn cyflwyno tystiolaeth ffotograffig a GIS yn achos ceisiadau priodol er mwyn osgoi ymweliadau safle diangen. Mae'r enghreifftiau lle na fyddai ymweliad safle fel arfer yn briodol yn cynnwys y canlynol:

- Lle bo materion polisi neu egwyddor yn unig dan sylw.
- Lle bo'r Aelod yn anghytuno â chasgliadau'r adroddiad yn unig.
- Lle bo'r Aelod yn dymuno ystyried anghytundeb rhwng cymdogion neu ynghylch ffiniau,
- Unrhyw faterion nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio perthnasol, megis gwerth eiddo yn gostwng.
- Lle bo Cynghorwyr eisoes wedi ymweld â'r safle o fewn y 12 mis diwethaf, heblaw bod amgylchiadau eithriadol.

10.6 Hysbysir yr ymgeisydd ynghylch ymweliadau safle, er mwyn hwyluso mynediad i'r safle.

10.7 Bydd gofyn bod Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio sy'n bresennol yn yr ymweliad safle yn cydymffurfio ag unrhyw gyngor iechyd a diogelwch a roddir ynghylch y safle. Byddant hefyd yn sicrhau eu bod yn gwisgo siacedi adlewyrchol ar hyd yr amser ac yn cyflawni unrhyw fesurau diogelu eraill ar sail cyngor Pennaeth Lle a Chynaliadwyaeth neu swyddog arall a fydd yn bresennol.

10.8 Ni chaiff Aelodau fynd ar y safle ond gyda chaniatâd y perchennog, sydd â'r hawl i barhau yn bresennol lle bo gofyn am resymau trefniadol

10.9 Cynhelir yr ymweliad safle yn breifat. Ni all y Pwyllgor dderbyn sylwadau gan y cyhoedd na'r Aelod Lleol ar ymweliadau safle nac yn ystod yr ymweliadau hynny. Gwahoddir yr Aelod Lleol i fynd ar yr ymweliad safle gyda'r Pwyllgor.

10.10 Cadeirydd yr ymweliad fydd Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, a fydd yn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal ar ffurf un cyfarfod ac mewn modd trefnus.

10.11 Bydd y Swyddog Cynllunio yn rhoi crynodeb byr o'r cais a'r materion sy'n berthnasol i'r ymweliad safle ar ddechrau pob ymweliad.

10.12 Ni chaiff Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio sydd ar yr ymweliad safle wneud sylwadau a fyddai'n creu argraff eu bod eisoes wedi dod i farn ynghylch rhinweddau'r cais.

10.13 Ni chaiff Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drafod y cais, heblaw am sicrhau eglurhad ynghylch ffeithiau, ac ni chânt ddod i benderfyniad ar y safle.

10.14 Pan fydd yr ymgeisydd yn bresennol o dan yr amgylchiadau ac am y rhesymau y cyfeiriwyd atynt ym Mharagraff 10.6, ni chaniateir iddo/iddi annerch yr Aelodau yn ystod yr ymweliad safle

10.15 Gall yr Aelodau, trwy'r Cadeirydd, ofyn cwestiynau i swyddogion i gael eglurhad ar faterion ffeithiol sy'n berthnasol i'r ymweliad safle. Rhaid cyflwyno unrhyw gwestiynau o'r fath fel bod pawb yn gallu eu clywed.

10.16 Os derbynnir cais gan drydydd parti i archwilio'r safle o leoliad gwahanol, dylai'r Aelodau, fel grwp, benderfynu a ddylid gwneud hynny.

## 11. PENDERFYNIADAU GAN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO SY'N GROES I ARGYMHELLIAD Y SWYDDOG

11.1 Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi rhoi arweiniad ynghylch y Côd Ymddygiad i Aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ac yn arbennig, y canllawiau penodol canlynol i Aelodau:-

" *Fel mater o arfer da, lle byddwch yn anghytuno ag argymhellion swyddog wrth wneud penderfyniad, dylech roi rhesymau clir am eich penderfyniad. Mae hyn yn berthnasol i benderfyniadau i bleidleisio yn erbyn cyngor swyddogion statudol, hyd yn oed os collwch y bleidlais. Os byddwch yn penderfynu pleidleisio yn erbyn eu cyngor, dylech sicrhau bod eich rhesymau dros wneud hynny wedi eu cofnodi yn y cofnodion perthnasol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai pleidleisio yn erbyn cyngor y swyddogion statudol heb reswm da olygu eich bod yn torri'r Côd.*

*Wrth ddod i benderfyniadau lle na ddarperir y cyngor gan y swyddogion statudol, dylech roi sylw o hyd i'r cyngor a ddarparwyd ganddynt, a'i ystyried wrth ddod i benderfyniad. Efallai y byddwch hefyd am ystyried cyngor arall a gawsoch, ac wrth*

*gwrs, safbwynt grŵp gwleidyddol yr ydych yn aelod ohono. O dan rai amgylchiadau, megis penderfyniadau cynllunio, rhaid i chi beidio â phleidleisio ar sail "chwip" a orfodwyd gan eich grŵp."*

Mewn achosion lle bo'r Pwyllgor yn penderfynu bod ei benderfyniad ynghylch cais yn groes i gyngor proffesiynol a roddwyd gan swyddogion, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio yn sicrhau bod yr egwyddorion canlynol yn cael eu dilyn: -

- Rhaid i Aelodau fynegi'n glir y rheswm/rhesymau cynllunio dros eu penderfyniad (a rhaid eu cofnodi).
- Rhaid i aelod sy'n cynnig gwrthod cais y mae'r swyddog yn argymell ei dderbyn nodi ei r(h)esymau cyn i'r bleidlais ddigwydd. Mewn rhai achosion, pan fydd hyn yn digwydd, gall fod angen gohirio'r mater i ganiatáu llunio adroddiad pellach.

11.2 Rhaid rhoi cyfle i swyddogion egluro wrth y Pwyllgor Cynllunio oblygiadau cynllunio a/neu gyfreithiol eu penderfyniad arfaethedig cyn cadarnhau'r penderfyniad hwnnw.

11.3 Lle bo'r Pwyllgor Cynllunio yn dymuno ychwanegu neu newid amodau/rhesymau neu atodi ymrwymiad cynllunio, rhaid rhoi cyfle i swyddogion egluro'r goblygiadau cynllunio a/neu gyfreithiol cyn cadarnhau'r penderfyniad.

## 12. APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R CYNGOR

12.1 Bydd swyddogion yn trefnu apeliadau cynllunio ac fel arfer yn dystion ynddynt hwy ac mewn achosion eraill ar ran y Cyngor. O dan rai amgylchiadau (megis lle bo angen tystiolaeth arbenigol neu lle bo penderfyniad yr Aelodau yn groes i argymhelliad y swyddog) gall fod angen penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y

12.2 Wrth roi tystiolaeth bydd Swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau posib ar ran y Cyngor, gan gydymffurfio â Chôd Ymddygiad Proffesiynol yr RTPI. Mae Côd Ymarfer Proffesiynol Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi yn gofyn, ymhlith pethau eraill, nad yw Swyddogion Cynllunio sy'n aelodau o'r Sefydliad yn gwneud datganiadau yr honnir eu bod yn eiddo iddynt sy'n groes i'w barn broffesiynol *bona fide.*

12.3 Mewn achosion lle bo'r apêl yn erbyn penderfyniad y mae'r Pwyllgor wedi ei wneud yn groes i argymhelliad y Swyddogion, mae'n bosibl y bydd swyddog yr achos cynllunio yn gallu rhoi tystiolaeth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, defnyddir swyddog arall neu ymgynghorwyr os bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio o'r farn na fyddai'r safbwynt a fynegwyd yn flaenorol gan swyddog yr achos (neu'r Gwasanaethau Cynllunio yn gyffredinol) o reidrwydd o gymorth wrth gyflwyno safbwynt y Pwyllgor.

12.4 Gall fod gan Aelodau rôl bwysig i'w chwarae mewn apeliadau, a gallant, o fewn terfynau amser penodedig, gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Arolygydd, yn ogystal ag ymddangos mewn gwrandawiadau anffurfiol neu yn dystion mewn ymchwiliadau lleol cyhoeddus. Wrth wneud hynny dylent nodi a ydynt yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel Cynghorydd lleol neu, yn eithriadol, yn cynrychioli achos y Cyngor.

12.5 Lle na all swyddogion cynllunio amddiffyn penderfyniadau sy'n destun apêl (yn sgil gofynion rheolau ymddygiad proffesiynol Sefydliad Brenhinol Cynllunio Trefi) dylai'r Pwyllgor Cynllunio fod yn ymwybodol o hynny cyn y bleidlais derfynol. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r Pwyllgor enwebu dau (o leiaf) o'i aelodau a bleidleisiodd yn groes i'r argymhelliad i ymddangos mewn unrhyw apêl er mwyn egluro penderfyniadau'r Pwyllgor a'r rhesymau amdanynt. Cynigiydd ac eilydd y cynnig a oedd yn groes i argymhelliad y swyddogion ddylai gyflawni'r swyddogaeth hon fel arfer.

12.6 Bydd Swyddogion Cynllunio a Chyfreithiol yn cynorthwyo Aelodau sy'n dymuno cyflwyno sylwadau mewn apeliadau ac yn rhoi cyngor iddynt ar baratoi a chyflwyno tystiolaeth. Bydd Swyddogion Cyfreithiol yn mynychu Ymchwiliadau a/neu'n rhoi cymorth i baratoi sylwadau pan fo angen cynrychiolaeth Gyfreithiol

## 13. HYFFORDDIANT I'R AELODAU

13.1 Mae'r Cyngor o'r farn y dylai Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ddilyn hyfforddiant, ac y dylid cynnig y cyfle hwn i'r holl Aelodau. Yn ôl Rheolau Gweithdrefn y Cyngor dim ond aelodau sydd wedi dilyn hyfforddiant priodol fydd yn cael bod yn aelodau neu'n aelodau dirprwyedig o'r Pwyllgor Cynllunio.

13.2 Bydd yr Aelodau'n cael cynnig hyfforddiant craidd a bydd disgwyl iddynt ei fynychu (fel arfer o fewn tri mis i'w penodi i'r Pwyllgor). Bydd y deunydd dan sylw yn cynnwys gweithdrefnau cynllunio, y cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio perthnasol, cywirdeb a thestunau eraill a bennir o bryd i'w gilydd gan swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Aelodau.

13.3 Bydd hyfforddiant arall ar gael ar ffurf sesiynau ychwanegol, cyflwyniadau byr i'r Pwyllgor a dosbarthu nodiadau briffio.

13.4 Cofnodir presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi, a chaiff ei fonitro trwy'r Pwyllgor Craffu perthnasol. Rhaid i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio dderbyn hyfforddiant blynyddol.

## 14. ADOLYGU PENDERFYNIADAU

14.1 Mae Adroddiad y Comisiwn Archwilio 'Adeiladu Ansawdd' yn argymell y dylai Cynghorwyr ymweld â sampl o'r achosion o ganiatâd cynllunio a roddwyd ar waith er mwyn asesu ansawdd y penderfyniadau. Nid diben adolygiad o'r fath

yw newid penderfyniadau, ond asesu a gwella ansawdd a chysondeb penderfyniadau, ac felly gryfhau hyder y cyhoedd a chynorthwyo yn y broses o adolygu polisi cynllunio.

14.2 Bydd y Pwyllgor Cynllunio yn cynnal adolygiad blynyddol o sampl o'r penderfyniadau cynllunio a wnaed gan y Pwyllgor. Bydd yr adolygiad yn cynnwys enghreifftiau o amrywiaeth o fathau o ddatblygiad (e.e. cynigion preswyl sylweddol, caniatâd ar gyfer adeiladau rhestredig, ac achosion gorfodi) gan gynnwys ymweliadau â'r safleoedd, lle bernir bod hynny'n briodol ac yn fuddiol.

14.3 Bydd y Pwyllgor Cynllunio yn ystyried yn ffurfiol ganlyniadau'r adolygiad ac yn penderfynu a ydyw'n golygu bod angen polisïau, gweithdrefnau ac arferion newydd.

14.4 Adroddir canlyniad apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor i'r Pwyllgor Cynllunio yn rheolaidd, fel bod modd dysgu unrhyw wersi. Hefyd adroddiad canlyniad achosion gorfodi ac achosion cyfreithiol yn rheolaidd, fel bod y Pwyllgor Cynllun yn cael diweddariad cyson.